

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

9

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/3612>

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Dadl: Canlyniad Refferendwm yr UE

Dechreuodd yr eitem am 14.18

NDM6045 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.45

4 Cynigion i sefydlu Pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 16.11



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

NDM6034 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

NDM6035 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

NDM6036 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

NDM6037 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

NDM6038 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

NDM6039 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

NDM6040 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn i ystyried unrhyw fater a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

NDM6041 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1 yn sefydlu Pwyllgor Deisebau i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23.

NDM6042 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i graffu ar waith y Prif Weinidog o safbwynt unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

NDM6043 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1 yn sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22.

Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

5 Cynnig i newid enw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro

Dechreuodd yr eitem am 16.12

NDM6044 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3 yn cytuno y caiff y Pwyllgor Dros Dro ar Faterion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a sefydlwyd ar 15 Mehefin 2016, ei ailenwi'n Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17 mewn perthynas â Gweithrediad Pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 16.12

NDM6047 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Datganiad gan y Prif Weinidog: y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**8 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau
Cymdeithasol: Lansio'r Ymgynghoriad ar Weithredu Cyfnod 1 y Ddeddf
Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) – TYNNWYD YN
ÔL**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

**9 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Cyrff
Llywodraethu Ysgolion – TYNNWYD YN ÔL**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

**10 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: y
Lluoedd Arfog**

Dechreuodd yr eitem am 16.56

**11 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion
Gwledig: Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – TYNNWYD YN
ÔL**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

**12 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:
Strategaeth Ffyrdd a Gwaith Stryd – TYNNWYD YN ÔL**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

**13 Dadl: Ail-enwi'r Cynulliad Cenedlaethol yn "Senedd" – WEDI EI
GOHIRIO TAN 5 GORFFENNAF**

Gohiriwyd yr eitem tan ddydd Mawrth 5 Gorffennaf 2016.

14 Cynnig i ddyrannu cadeiryddion pwyllgorau i'r grwpiau plaid

Dechreuodd yr eitem am 17.28

NDM6056 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2A, yn cytuno mai'r grwpiau gwleidyddol y caiff cadeiryddion pwyllgorau eu hethol ohonynt fydd fel a ganlyn:

- i. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Llafur;
- ii. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig – UKIP;
- iii. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Llafur;
- iv. Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Plaid Cymru;
- v. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Ceidwadwyr Cymreig;
- vi. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Llafur;
- vii. Y Pwyllgor Cyllid – Plaid Cymru;
- viii. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Plaid Cymru;
- ix. Y Pwyllgor Deisebau – Llafur;
- x. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ceidwadwyr Cymreig;
- xi. Y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn – Llafur;
- xii. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Llafur.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

15 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

16 Ethol cadeiryddion pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 17.29

Gwahoddodd y Llywydd enwebiadau ar gyfer cadeiryddion y pwyllgorau yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F. Galwyd am enwebiadau yn y drefn a ganlyn:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Llafur

Enwebwyd Julie Morgan gan Mike Hedges.

Eiliodd Hefin David yr enwebiad.

Enwebwyd Lynne Neagle gan Lesley Griffiths .

Eiliodd Joyce Watson yr enwebiad.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig – UKIP

Enwebwyd Mark Reckless gan David Rowlands .

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Mark Reckless wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Llafur

Enwebwyd Huw Irranca-Davies gan Dawn Bowden.

Eiliodd David Rees yr enwebiad.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Huw Irranca-Davies wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Plaid Cymru

Enwebwyd Bethan Jenkins gan Dai Lloyd.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Bethan Jenkins wedi ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Ceidwadwyr Cymreig

Enwebwyd Russell George gan David Melding.

Enwebwyd Janet Finch-Saunders gan Mark Isherwood.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Llafur

Enwebwyd John Griffiths gan Jayne Bryant.

Eiliodd Dawn Bowden yr enwebiad.

Enwebwyd Lee Waters gan Jeremy Miles.

Eiliodd Hefin David yr enwebiad.

Enwebwyd Jenny Rathbone gan Eluned Morgan.

Eiliodd Rhianon Passmore yr enwebiad.

Gan fod tri enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

Y Pwyllgor Cyllid – Plaid Cymru

Enwebwyd Simon Thomas gan Llyr Gruffydd.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Simon Thomas wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Plaid Cymru

Enwebwyd Dai Lloyd gan Bethan Jenkins.

Enwebwyd Rhun ap Iorwerth gan Llyr Gruffydd.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

Y Pwyllgor Deisebau – Llafur

Enwebwyd Mike Hedges gan Rhianon Passmore.

Eiliodd Julie Morgan yr enwebiad.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Mike Hedges wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ceidwadwyr Cymreig

Enwebwyd Darren Millar gan David Melding.

Enwebwyd Mark Isherwood gan Janet Finch–Saunders.

Enwebwyd Nick Ramsay gan Mohammad Asghar.

Gan fod tri enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

Y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn – Llafur

Enwebwyd David Rees gan Eluned Morgan.

Eiliodd Huw Irranca-Davies yr enwebiad.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod David Rees wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Llafur

Enwebwyd Jayne Bryant gan Joyce Watson.

Eiliodd Mike Hedges yr enwebiad.

Gan nad oedd ond un enwebiad, ac na chafwyd gwrthwynebiad i'r enwebiad, datganodd y Llywydd fod Jayne Bryant wedi ei hethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.40

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Mehefin 2016